Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Arweiniad ar Recordio Cyfarfodydd, Ymweliadau neu Apwyntiadau gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth



Cadarnhawyd gan y Bwrdd
Medi 2024

Grŵp Protocolau a Gweithdrefnau

Dyddiad Adolygu
Medi 2027

**Cynnwys** **Rhif Tudalen**


1. Cyflwyniad 3
2. Pryd allai defnyddwyr gwasanaeth fod eisiau recordio cyfarfodydd, ymweliadau, ac apwyntiadau? 4
3. Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am recordio cyfarfodydd, ymweliadau, ac apwyntiadau? 5
4. A oes modd dibynnu ar recordiad gan riant neu ddefnyddiwr gwasanaeth yn y Llys? 7
5. Egwyddorion sut y byddwn ni'n gweithio. 7
6. Beth ddylai ymarferwyr ei wneud os bydd rhywun eisiau recordio cyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad yn agored neu'n ddirgel? 9
7. Beth ddylai ymarferwyr ei wneud os credan nhw fod cyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad yn cael ei recordio a/neu byddai cyhoeddi'r recordiad yn rhoi plentyn mewn perygl o niwed pellach? 11
8. Beth ddylai ymarferwyr ei wneud os bydd gan rieni wahaniaeth barn am recordio'r cyfarfod, ymweliad neu apwyntiad? 11

## 1. Cyflwyniad

### Beth yw'r Arweiniad hwn?

Mae'r arweiniad hwn yn ymwneud â phan fydd defnyddwyr gwasanaeth, rhieni, aelodau'r teulu, ac eraill gyda chyfrifoldeb rhieni eisiau recordio cyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad. Mae hyn yn cynnwys pan fydd y cyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad yn digwydd wyneb-yn-wyneb, dros y ffôn, drwy Teams neu fath arall o dechnoleg. Yn yr arweiniad hwn, defnyddir y term 'y rhieni' i ddisgrifio'r rhai sy'n rhieni genedigol, y rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni a gwarcheidwaid cyfreithiol. Defnyddir y term 'defnyddiwr gwasanaeth' i ddisgrifio oedolion mewn perygl, oedolion sy'n derbyn gwasanaethau statudol a'r rhai sy'n destun cynlluniau gofal a chymorth. Mae'r term 'recordiad' yn cyfeirio at recordiadau sain a chyfryngau gweledol fel ei gilydd. Nid arweiniad sy'n ymwneud â'r awdurdod lleol neu asiantaeth arall yn gwneud recordiad o gyfarfod yw hyn.

### Pam fod angen yr arweiniad hwn?

Mae angen yr arweiniad hwn arnom ni oherwydd er nad yw cyfarfodydd yn cael eu recordio'n eang, pan fydd y sefyllfa'n codi, mae angen i Gadeiryddion cyfarfodydd a chyfranogwyr eraill mewn cyfarfodydd, ymweliadau, neu apwyntiadau ddeall y materion dan sylw a darparu ymateb clir a chyson. Mae hyn yn berthnasol p’un a yw’r cyfarfod yn cael ei gynnal ar safle sefydliad, yn y cartref, neu mewn lleoliad cymunedol.

### Beth yw pwrpas yr arweiniad hwn?

Pwrpas yr arweiniad hwn yw darparu eglurder am ymagwedd Bwrdd Diogelu Gwent at recordio cyfarfodydd. Bydd yn cefnogi arfer da presennol ynglŷn â sut mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal, a dylai annog ymarferwyr i wrando ar rieni a defnyddwyr gwasanaeth ynglŷn â'u rhesymau dros eisiau recordio. O fewn yr arweiniad, bydd y gyfraith sy'n ymwneud â recordio yn cael ei hegluro.

### At bwy y mae'r arweiniad hwn wedi'i anelu?

Mae'r arweiniad hwn wedi'i anelu at ymarferwyr sy'n Cadeirio cyfarfodydd amlasiantaeth ac unrhyw ymarferydd sydd hefyd yn cymryd rhan mewn (ar y cyfan ond nid yn gyfan gwbl) cyfarfodydd statudol amlasiantaethol, yn ogystal â chyfarfodydd eraill, neu apwyntiadau neu ymweliadau unigol. Bydd yr ymarferwyr hyn yn dod o amrywiaeth eang o asiantaethau, yn statudol ac yn anstatudol. Mae’r arweiniad hwn ar gyfer ymarfer cyffredinol ar gyfer ymarferwyr sydd â chyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol â theuluoedd, fodd bynnag, bydd eithriadau pan fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal at ddibenion diogelu/ymchwilio i droseddau penodol. Felly, mewn achosion penodol bydd eithriadau i'r protocol hwn, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'ch polisi sefydliadol eich hun, lle bo'n berthnasol.

Eithriadau

Ni ddylid recordio unrhyw gyfarfod **diogelu** lle mae'r rhieni, gofalwyr, plentyn/person ifanc neu oedolyn dan sylw yn bresennol. Bydd yr awdurdod lleol yn llunio cofnodion yn unol â pholisi'r sefydliad ac os bydd gan yr unigolyn/aelodau'r teulu bryder

ynghylch ansawdd y cofnodion hynny, dylid dilyn y gweithdrefnau cwyno priodol a pherthnasol.

Ni ddylai unrhyw ymweliadau a gynhelir o dan weithdrefnau diogelu (er enghraifft ymweliadau adran 47 ar y cyd neu asiantaeth unigol) gael eu recordio gan rieni, gofalwyr, plentyn/person ifanc neu oedolyn dan sylw. Bydd yr asiantaeth arweiniol yn cofnodi manylion yr ymweliadau hyn a gall yr unigolyn dan sylw wneud cais am fynediad at ddata gan y testun yn unol â pholisi'r asiantaeth.

Mae'r eithriadau uchod yn berthnasol oherwydd natur sensitif a chyfrinachol yr wybodaeth y gellir ei thrafod a gall gwybodaeth hefyd gael ei rhannu sy'n ymwneud â thrydydd partïon. Mae’n bosibl hefyd na chaniateir recordio lle gallai’r wybodaeth sydd yn y recordiad fod yn rhan o ymchwilio i droseddau neu gael ei defnyddio at ddibenion tystiolaethol.

Ni fyddai recordio gan drydydd parti yn cael ei ganiatáu mewn unrhyw achos, hyd yn oed os yw'r unigolyn neu ei riant/gofalwr wedi eu gwahodd i'r cyfarfod, apwyntiad, neu ymweliad.

Pan fydd recordiadau'n ymwneud â phlentyn neu oedolyn mewn perygl, mae hefyd o'r pwys mwyaf ystyried a ydyn nhw wedi rhoi caniatâd i'r recordiad ddigwydd. Mae hyn yn cynnwys lle mae plant dan 16 oed ond ystyrir bod ganddyn nhw gapasiti i wneud penderfyniadau yn y cyd-destun hwn.

Ysgrifennwyd yr arweiniad hwn gan gyfeirio at ‘Parents recording social workers – A guidance note for parents and professional’, the Transparency Project Rhagfyr 2015. (Saesneg yn unig).

**2. Pryd allai defnyddwyr gwasanaeth fod eisiau recordio cyfarfodydd, ymweliadau ac apwyntiadau?**

Weithiau, mae rhieni/gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth eisiau recordio cyfarfod amlasiantaeth megis, Adolygiad Plentyn sy'n Derbyn Gofal, cyfarfod Gofal a Chymorth, Cynhadledd Amddiffyn Plentyn neu Oedolyn neu Grŵp Craidd. Mae'n bosib y byddan nhw hefyd eisiau recordio apwyntiadau unigol gydag ymarferwyr megis ymweliadau gan ymwelwyr iechyd, neu gyfarfodydd gydag athrawon neu ddarparwyr addysg.

Gallan nhw wneud hyn yn agored neu'n ddirgel. Mae yn ddirgel yn golygu maen nhw’n gwneud hyn heb ofyn neu roi gwybod i eraill yn y cyfarfod. Mae'n bosib y bydd y ddyfais recordio hefyd yn cael ei chuddio. Mae yn agored yn golygu nad yw'r person sydd eisiau recordio'r cyfarfod yn cuddio'r ffaith ei fod am wneud hyn.

Mae'n bosib y byddan nhw’n gofyn am ganiatâd neu'n datgan y byddan nhw’n recordio'r cyfarfod. Mae'n bosib y bydd y person sy'n recordio yn recordio'r cyfarfod cyfan neu ran ohono'n unig. Bydd y rhesymau dros eisiau recordio cyfarfod yn wahanol ar gyfer pob oedolyn neu aelod teulu a gallan nhw gynnwys y canlynol:

- Mae recordio'n haws na chymryd nodiadau. Gallai'r rhesymau dros hyn gynnwys y canlynol:

- amhariad ar eu golwg;
- anabledd dysgu;
- problem llythrennedd;
- anabledd corfforol;
- anhawster sy'n effeithio ar eu gallu i ysgrifennu, canolbwyntio, neu gofio gwybodaeth.

Gallai hyd rhai cyfarfodydd neu sut mae'r rheswm dros y cyfarfod yn gwneud iddyn nhw deimlo, er enghraifft, dan straen, waethygu hyn;

- Mae'n bosib na fyddan nhw am ddibynnu ar nodiadau'r cyfarfod a/neu na fyddan nhw eisiau aros am anfon nodiadau'r cyfarfod atyn nhw. Mae'n bosib eu bod nhw wedi cael profiadau blaenorol, sydd wedi arwain at eisiau recordio cyfarfod, er enghraifft peidio â chael nodiadau pan fydd eraill wedi neu gael nodiadau nad ydyn nhw'n cytuno â nhw. Mae'n bosib eu bod nhw wedi cael trafferth herio anghywirdebau neu hepgoriadau yn y gorffennol;

- Mae'n bosib y bydd ganddyn nhw deimladau negyddol am ymarferydd neu asiantaeth benodol neu nifer ohonyn nhw. Mae'n bosib y byddan nhw am 'dwyllo' ymarferydd neu asiantaeth neu gasglu tystiolaeth i'w defnyddio'n ddiweddarach mewn achos llys;

- Mae'n bosib y byddan nhw am ddefnyddio recordiad at ddibenion eraill megis lledaenu gwybodaeth fel rhan o ymgyrch, er enghraifft ar y rhyngrwyd. Efallai nad hyn fydd eu bwriad gwreiddiol wrth wneud y recordiad.

**Beth allai rhieni a defnyddwyr gwasanaeth ei wneud gyda'r recordiadau?**

- Mae'n bosib y byddan nhw'n cadw'r recordiad ar gyfer eu cofnodion eu hun;
- Mae'n bosib y byddan nhw'n rhannu'r recordiad â'u teulu neu ffrindiau;
- Mae'n bosib y byddan nhw'n gofyn i Lys ystyried y recordiad.
- Mae'n bosib y byddan nhw'n cyhoeddi'r recordiad ar wefan y cyfryngau cymdeithasol megis Facebook neu wefan, ei ddefnyddio wrth gymryd rhan mewn cyfweliad â'r cyfryngau, neu ei ddefnyddio o fewn ymgyrch.

## 3. Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am recordio cyfarfodydd, ymweliadau ac apwyntiadau?

Nid yw recordio cyfweliadau, ymweliadau, ac apwyntiadau yr un peth â lledaenu neu gyhoeddi recordiadau a wnaed. Mae'r adran ganlynol yn darparu crynodeb o'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud am recordio cyfarfodydd, ymweliadau, ac apwyntiadau.

Mae tudalennau 7 – 13 dogfen prosiect Transparency yn gynnwys rhagor o fanylion ynglŷn â hyn.

### Deddf Diogelu Data 2018

Nid yw'r ddeddf yn atal rhieni a defnyddwyr gwasanaeth rhag recordio cyfarfodydd, ymweliadau, neu apwyntiadau. Nid yw tudalen 5 o 10 y Ddeddf Diogelu Data (DPA)

yn atal rhieni a defnyddwyr gwasanaeth rhag recordio'r rhain gan fod 'data personol' y tu allan i gwmpas GDPR.

Mae 'data personol' yn cael ei ddiffinio fel gwybodaeth am unigolyn byw y gellir ei adnabod o'r wybodaeth honno neu wybodaeth arall. Mae hefyd yn cynnwys barn am unigolyn byw. Yn y cyd-destun hwn, ystyrir yr hyn y mae gweithiwr proffesiynol yn ei ddweud mewn cyfarfod gwaith cymdeithasol neu amlasiantaeth fel eu data personol o dan y DPA ac mae gwybodaeth sy'n ymwneud â phersonau eraill y maen nhw'n eu trafod yn ddata personol iddyn nhw.

Fodd bynnag, os yw unigolyn yn postio recordiadau o gyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad ar fforwm ar-lein neu wefan rhwydweithio cymdeithasol, bydd angen iddyn nhw wirio a yw'r DPA yn berthnasol. Mae'n bosib y bydd angen i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ymchwilio os yw'n ymddangos bod unigolyn wedi mynd y tu hwnt i gwmpas yr eithriad, ac mae'n bosib y bydd yr ICO yn cymryd camau gorfodi yn ei erbyn.

**Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) 2000**

Nid yw'r Ddeddf yn atal rhieni a defnyddwyr gwasanaeth rhag recordio cyfweliadau, ymweliadau, neu apwyntiadau. Dim ond i weithredoedd y Wladwriaeth (yr Awdurdod Lleol) y mae RIPA yn berthnasol, er enghraifft, mae'n rhoi rhywfaint o amddiffyn i rieni mewn perthynas â gweithgaredd o fath gwyliadwriaeth.

**A oes yna gyfreithiau eraill sy'n dweud ni chaiff rhieni a defnyddwyr gwasanaeth recordio cyfarfodydd, ymweliadau, ac apwyntiadau?**

Cyfrinachedd a phreifatrwydd – Gallai dorri preifatrwydd aelod o'r teulu os caiff recordiad ei ddosbarthu neu ei gyhoeddi gan aelod arall o'r teulu, yn enwedig os gellir dangos bod y cyhoeddiad wedi achosi aflonyddwch, fel y'i diffinnir yn y gyfraith.

- Lle gwneir recordiad at ddefnydd personol yn unig neu i'w ddefnyddio fel tystiolaeth mewn achos llys preifat, mae'n annhebygol o fod yn gyfystyr â thorri preifatrwydd.
- Hawliau Dynol – Mae dogfennau neu dystiolaeth a gynhyrchir at ddibenion achos Llys yn dod o dan reolau'r llys ac mae cyfyngiadau ar eu dosbarthu. Nid yw recordiadau o gyfarfod, ymweliad neu apwyntiad yn dod o dan reolau'r llys (hyd yn oed os yw'r rhiant yn bwriadu darparu'r recordiad hwn i'r llys). Weithiau mae hawliau aelodau o'r teulu yn gwrthdaro â'u hawliau unigol i barch at eu bywyd preifat a theuluol a'u hawl i ryddid mynegiant. Nid oes gan aelodau'r teulu ddyletswydd i'w gilydd o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Fodd bynnag, rhaid i asiantau'r wladwriaeth a'r rhai sy'n gweithio i'r wladwriaeth (gan gynnwys yr Awdurdod Lleol) gyflawni eu gwaith gyda pharch at hawliau preifatrwydd, bywyd teuluol a mynegiant.
- Bywyd preifat ymarferwyr – Mae recordiad o gyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad a fynychwyd gan ymarferydd – er enghraifft gweithiwr cymdeithasol yn ei rôl broffesiynol yn annhebygol o gynnwys gwybodaeth am ei fywyd preifat.
- Preifatrwydd teuluoedd – Os yw rhieni a defnyddwyr gwasanaeth yn cytuno i beidio â dosbarthu eu recordiadau i'r cyhoedd neu grŵp o'r cyhoedd a'u bod

nhw ond yn defnyddio'r recordiad ar gyfer eu cofnodion eu hunain neu mewn achos llys preifat, mae'n annhebygol y byddai'r Awdurdod Lleol yn cael ei feirniadu am dorri preifatrwydd wrth ganiatáu hyn. Pe bai oedolyn yn dosbarthu recordiad ar y rhyngrwyd (drwy gyfryngau cymdeithasol neu mewn ffordd arall) gallai hyn fod yn niweidiol i'r plentyn, naill ai oherwydd y byddai'n arwain at ei adnabod fel plentyn â chysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol (er enghraifft) neu fod manylion eu bywydau preifat yn cael eu gwneud yn gyhoeddus. Mae'n bosib y bydd awdurdod lleol (neu oedolyn) yn gallu ceisio gwaharddeb i atal hyn neu i sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei dileu os oedd yn niweidiol i blentyn. Dosbarthiad y recordiad sy'n broblematig ac nid y recordiad.

- Difenwi (enllib neu athrod) – mae hyn yn annhebygol o fod yn berthnasol oni bai bod rhywbeth a ddywedwyd yn anwir a oedd yn debygol o niweidio'n ddifrifol enw da'r person yr oedd y datganiad yn ymwneud ag ef. Mae'r hyn a ddywedir mewn cyfarfodydd, ymweliadau ac apwyntiadau yn debygol o fod yn gyfystyr â 'barn onest' ac felly mae'n annhebygol o fod yn ddifenwol.
- Aflonyddu – Os bydd rhywun yn recordio cyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad gyda'r bygythiad echblyg neu ymhlyg o 'fynd yn gyhoeddus' neu roi'r recordiad ar y rhyngrwyd neu gylchredeg y deunydd fel arall mewn ffordd a ddyluniwyd i achosi gofid neu ofn - mae'n bosibl y gofynnir i lys wneud gorchymyn (gwaharddeb) i atal hyn. Pe bai recordiad yn cael ei ddefnyddio i aflonyddu ar weithiwr proffesiynol, mae'n bosibl y byddai llys yn cael cais i wneud gwaharddeb hefyd, er bod hyn yn llai tebygol.

## 4. A oes modd dibynnu ar recordiad gan riant neu ddefnyddiwr gwasanaeth yn y Llys?

Mae potensial i recordiad a wneir gan oedolyn fod yn dderbyniol yn y Llys, ond byddai angen i'r Llys roi caniatâd.

Mae Llys yn annhebygol o roi caniatâd oni bai ei bod yn amlwg bod y recordiad yn berthnasol ac yn ddibynadwy.

Mae Llys yn fwy tebygol o roi caniatâd os yw recordiad o ansawdd sain a gweledol da ac yn gofnod amlwg o'r cyfarfod cyfan yn hytrach na detholiad wedi'i olygu.

Os yw cyfarfod wedi'i recordio'n ddirgel, gall fod yn anodd dangos bod y recordiad yn gyflawn ac nad yw rhywbeth a ddywedwyd neu a wnaethpwyd yn cael ei dynnu allan o'i gyd-destun.

Mae'n debygol y bydd y Llys yn gofyn am baratoi trawsgrifiad ond dylai'r recordiad digidol neu analog gwreiddiol fod ar gael i'r holl gyfranogwyr ei glywed a'i weld.

## 5. Egwyddorion sut y byddwn ni'n gweithio.

Mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi nodi set o egwyddorion i gefnogi ein hymagwedd at recordio cyfarfodydd.

- Os cytunir i recordio unrhyw gyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad, dylid gwneud hyn yn glir i'r holl gyfranogwyr o'r cychwyn cyntaf.
- Os cynhelir cyfarfodydd yn rhithwir neu'n hybrid, disgwylir y byddai'r rhai sy'n mynychu yn cadw camerâu ymlaen trwy gydol y cyfarfod.
- Bydd ymarferwyr yn parhau i ymddwyn yn broffesiynol mewn cyfarfodydd ac yn darparu gwybodaeth ffeithiol, glir, yn seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi trafodaeth a gwneud penderfyniadau. Lle gofynnir iddyn nhw roi eu barn, byddan nhw'n parhau i wneud hynny.
- Byddwn ni'n gweithio o fewn canllawiau cyfreithiol, statudol neu weithdrefnau lleol o ran cymryd nodiadau a chofnodion cyfarfodydd gan gynnwys cynadleddau, a'u dosbarthu o fewn amserlenni cytunedig lle bynnag y bo modd.
- Byddwn ni'n egluro i bawb yn y cyfarfod y broses leol ar gyfer cofnodi a dosbarthu'r nodiadau yn ogystal â'r broses ar gyfer gofyn am unrhyw newidiadau.
- Byddwn ni'n parhau i atgoffa mynychwyr bod gwybodaeth a drafodir mewn cyfarfodydd yn gyfrinachol a'u bod nhw'n gyfrifol am unrhyw wybodaeth y byddan nhw'n ei thynnu o'r cyfarfod;
- Byddwn ni'n gadarnhaol ac yn rhagweithiol pan fydd y sefyllfa'n codi bod rhywun yn gofyn am gael recordio cyfarfod ac yn darparu ymateb cyson a chlir am hyn. Os yw'r mater wedi codi mewn cyfarfod, ymweliad neu apwyntiad blaenorol, dylai Cadeirydd y cyfarfod neu'r ymarferydd arweiniol fod yn rhagweithiol cyn y cyfarfod, yr ymweliad, neu'r apwyntiad a gofyn i'r sawl a oedd am recordio'n flaenorol beth yr hoffai ei wneud y tro hwn.
- Pan fydd y sefyllfa'n codi, byddwn ni'n gweithio gyda rhieni a defnyddwyr gwasanaeth i archwilio gyda nhw pam eu bod nhw eisiau recordio cyfarfod, ymweliad neu apwyntiad.
- Lle bo'r rheswm dros fod eisiau recordio cyfarfod yn ymwneud ag unrhyw ofynion sydd gan y person o ran anhawster dysgu, anabledd dysgu, amhariad synhwyraidd neu gorfforol, neu lle nad Saesneg yw ei iaith gyntaf, byddwn ni'n ymdrechu, lle bo'n ymarferol bosibl, i ddarparu cymorth ychwanegol i alluogi'r person i ddeall yr hyn sy'n cael ei ddweud ac i gofnod gael ei wneud y gall ei ddeall.
- Byddwn ni'n sicrhau bod buddiannau'r plentyn, y person ifanc a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog i unrhyw drafodaeth am recordio cyfarfodydd, ymweliadau, neu apwyntiadau i sicrhau nad yw unrhyw gamau a gymerir yn debygol o achosi niwed i'r plentyn neu'r defnyddiwr gwasanaeth.
- Byddwn ni'n darparu gwybodaeth i ymarferwyr eraill os bydd y sefyllfa'n codi ei bod yn hysbys bod rhiant neu ddefnyddiwr gwasanaeth am recordio'r cyfarfod, yr ymweliad neu'r apwyntiad.
- Lle mae recordiad wedi digwydd, bydd hyn yn cael ei gofnodi'n glir yng nghofnodion ysgrifenedig neu recordiad y cyfarfod, ymweliad neu apwyntiad.
- Byddwn ni'n ei gwneud yn glir i rieni, gofalwyr ac unigolion y cedwir cofnod ffurfiol o unrhyw gyfarfod, apwyntiad neu ymweliad yn ogystal ag unrhyw recordiad y maen nhw'n dewis ei wneud, yn unol â pholisi'r sefydliad.

**I Blant**

- Os oes gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb rhiant (pan fo'r plentyn yn destun gorchymyn gofal interim neu lawn neu orchymyn lleoli), bydd y Gweithiwr Cymdeithasol a Swyddog Adolygu Annibynnol y plentyn yn penderfynu ar y cyd beth sydd er lles pennaf y plentyn. Gallai hyn gynnwys yr hawl i wrthod recordio os teimlwyd nad oedd hyn er lles pennaf y plentyn.
- Lle mae gan y plentyn neu'r person ifanc yr oedran a'r ddealltwriaeth i gymryd rhan mewn trafodaeth ynghylch a ddylai rhywun recordio cyfarfod, bydd yn cael ei gynnwys yn y drafodaeth a bydd ei farn yn cael ei hystyried.

**6. Beth ddylai ymarferwyr ei wneud os bydd rhywun eisiau recordio cyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad yn agored neu'n ddirgel?**

**Pan fydd rhywun eisiau recordio cyfarfod, ymweliad neu apwyntiad yn agored;**

a) Dylid gwneud unrhyw gais i recordio'n uniongyrchol i'r Cadeirydd ar dderbyn y gwahoddiad i fynychu neu ar ddechrau'r apwyntiad. Dylai Cadeirydd y cyfarfod neu'r ymarferydd arweiniol sy'n ymwneud â'r ymweliad neu'r apwyntiad archwilio gyda nhw eu rhesymau dros eisiau recordio'r cyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad a'u bwriadau o'r hyn y byddan nhw'n ei wneud â'r recordiad wedyn. Dylai Cadeirydd y cyfarfod neu'r ymarferydd arweiniol sicrhau bod unrhyw drafodaeth a'r canlyniad a'r rhesymau am hyn yn cael eu dal a'u cofnodi yng nghofnodion neu gofnod ysgrifenedig yr ymweliad neu apwyntiad, a bod y rheolau ynghylch ei ddefnyddio at unrhyw beth heblaw defnydd personol yn cael eu gwneud yn glir i'r holl gyfranogwyr a'u cofnodi.

- Lle bo'r rhesymau'n ymwneud â'u hanabledd, amhariad neu allu i ddilyn y drafodaeth neu i gofio'r hyn a ddywedwyd, dylid trafod ffyrdd o wella hyn ar eu cyfer a mynd i'r afael â nhw lle bo modd. Gallai hyn gynnwys pawb yn y cyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad yn cytuno i beidio â defnyddio jargon ac/neu egluro pethau mewn ffordd sy'n addas i'r person. Yn ogystal, dylid trefnu i gysylltu â'r oedolyn ar ôl y cyfarfod, yr ymweliad, neu'r apwyntiad i gefnogi eu dealltwriaeth o'r penderfyniadau a wnaed.

- Lle bo'r oedolyn yn datgan bod y rhesymau'n ymwneud â diffyg ymddiriedaeth yn y bobl yn y cyfarfod, neu sut mae gwybodaeth yn cael ei gofnodi, dylid archwilio hyn ymhellach â nhw. Dylid gofyn iddyn nhw beth fyddai'n helpu. Gallai hyn gynnwys y Cadeirydd neu'r ymarferydd arweiniol yn egluro pob penderfyniad allweddol yn y cyfarfod, ymweliad neu apwyntiad a'r hyn fydd yn cael ei gofnodi. Mae'n bosib y bydd ymweliad gan yr ymarferydd arweiniol i'r rhiant wedyn yn ddefnyddiol i esbonio'r hyn a benderfynwyd.

- Lle bo'r oedolyn yn datgan ei fod am ddefnyddio'r recordiad yn y Llys, dylid archwilio'r rhesymau dros hyn gyda nhw a chwilio am ffyrdd iddyn nhw deimlo bod eu barn yn cael ei chlywed a'i hadlewyrchu yn nodiadau'r cyfarfod, ymweliad neu apwyntiad. Dylid rhoi gwybod iddyn nhw bod yn rhaid i Lys roi caniatâd i ddibynnu

ar recordiad yn y Llys a bod caniatâd yn annhebygol oni bai ei bod yn amlwg bod y recordiad yn berthnasol ac yn ddibynadwy. Mae Llys yn debygol o fod angen recordiad o ansawdd da o'r cyfarfod cyfan yn hytrach na detholiad wedi'i olygu. Lle mae recordiad wedi'i wneud yn ddirgel, gall fod yn anodd dangos bod y recordiad yn gyflawn ac nad yw rhywbeth a ddywedwyd neu a wnaethpwyd yn cael ei dynnu allan o'i gyd-destun. Mae Llys hefyd yn debygol o fynnu bod trawsgrifiad yn cael ei baratoi a'i ddarparu ochr yn ochr â'r recordiad gwreiddiol.

- Lle bo'r oedolyn yn datgan ei fod am recordio'r cyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad i'w gyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol neu ar y rhyngrwyd, dylai'r Cadeirydd neu'r ymarferydd arweiniol drafod hyn gyda nhw a rhoi gwybod am y risgiau a all godi o ganlyniad, e.e., effaith negyddol ar y plentyn, hirhoedledd deunydd cyhoeddedig ar y rhyngrwyd ac anallu dilynol i dynnu gwybodaeth o'r fath yn ôl unwaith y bydd wedi'i rhannu, ac ati. Fodd bynnag, er y gellir ac y dylid cynghori'r unigolyn yn erbyn defnyddio recordiad yn y fath fodd, yr unigolyn sy'n gwbl gyfrifol am unrhyw brosesu pellach o'i ddata personol ei hun y mae'n ei wneud ar ôl ei gael (e.e., rhannu ei recordiad ar y cyfryngau cymdeithasol), a phe bai'n dewis gwneud hynny yn groes i'r cyngor a roddir, ni fydd hyn yn arwain at feiusrwydd ar ran y sefydliad am rannu'r data hwnnw.

b) Dylai Cadeirydd y cyfarfod neu ymarferydd arweiniol yr ymweliad neu'r apwyntiad esbonio i'r holl gyfranogwyr bod y cais wedi'i wneud, a dylid ceisio barn aelodau'r cyfarfod, ymweliad neu apwyntiad. Ar gyfer plant, dylai'r plentyn neu berson ifanc a'r rhiant arall (fel y bo'n berthnasol) hefyd gael y cyfle i roi eu barn.

c) Y Cadeirydd neu'r ymarferydd arweiniol sy'n penderfynu a ddylid caniatáu recordio cyfarfod, ymweliad neu apwyntiad. Dylai'r penderfyniad fod yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r rhiant, defnyddwyr gwasanaeth, ymarferwyr, gweithwyr proffesiynol a, lle bo'n berthnasol, y plentyn. Dylai unrhyw risg pellach posibl i'r plentyn/person ifanc neu ddefnyddiwr gwasanaeth ystyried y penderfyniad a dylid dogfennu'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad yn y cofnodion neu'r cofnod ysgrifenedig.

ch) Lle penderfynwyd caniatáu'r recordiad a bod angen trafod gwybodaeth sensitif, er enghraifft gwybodaeth feddygol sensitif, yr arfer gorau fyddai i'r Cadeirydd neu'r ymarferydd arweiniol benderfynu atal y recordiad hyd nes y bydd yr adran hon o'r cyfarfod, ymweliad neu apwyntiad wedi dod i ben. Dylid cofnodi hyn yng nghofnodion y cyfarfod neu gofnod ysgrifenedig yr ymweliad neu apwyntiad.

**Pan fydd rhywun wedi recordio cyfarfod neu gynhadledd yn ddirgel**

d) Pan ddaw'n amlwg bod rhiant neu ddefnyddiwr gwasanaeth wedi recordio cyfarfod, ymweliad neu apwyntiad yn ddirgel heb yn wybod i'r Cadeirydd, yr ymarferydd arweiniol, a/neu gyfranogwyr eraill, dylid roi gwybod i Gadeirydd y cyfarfod neu'r ymarferydd arweiniol. Dylen nhw ystyried rhoi gwybod i gynrychiolydd cyfreithiol yr Awdurdod Lleol a cheisio cyngor ar y goblygiadau posibl a pha gamau, os o gwbl, sydd angen eu cymryd.

dd) Os bydd sefyllfa'n codi lle daw'n amlwg yn ystod cyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad bod recordiad dirgel yn digwydd heb drafodaeth neu gytundeb ymlaen

llaw gyda'r Cadeirydd neu'r ymarferydd arweiniol, gellir gohirio'r cyfarfod, ymweliad neu apwyntiad dros dro er mwyn galluogi trafodaeth adeiladol rhwng y Cadeirydd/ymarferydd arweiniol a'r sawl sy'n gwneud y recordiad. Bydd hyn yn galluogi'r Cadeirydd/ymarferydd arweiniol i archwilio'r rhesymau dros y recordiad fel yr amlinellir o dan 6 uchod. Mae gan y Cadeirydd/ymarferydd arweiniol ddisgresiwn i oedi ymhellach ac aildrefnu'r cyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad os yw'n briodol ac na ellir dod i gytundeb ar y cyd. Os bydd sefyllfa o'r fath yn codi, dylid pwyso a mesur unrhyw risgiau sy'n weddill i'r plentyn neu'r oedolyn a natur frys y sefyllfa yn erbyn y penderfyniad i ohirio'r cyfarfod, ymweliad neu apwyntiad.

**Mewn sefyllfaoedd agored a dirgel fel ei gilydd**

e) Os canfyddir bod rhiant, gofalwr neu ddefnyddiwr gwasanaeth wedi cyhoeddi recordiad ar y cyfryngau cymdeithasol a/neu rywle arall ar y rhyngrwyd, neu wedi ei ddefnyddio at ddiben arall, dylai'r ymarferydd arweiniol ystyried pa niwed posibl y gallai hyn ei achosi a pha oblygiadau sydd gan hyn i'r plentyn, person ifanc neu oedolyn. Dylai'r ymarferydd arweiniol geisio cyngor cyfreithiol. Mae'n bosib y bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio gwaharddeb i geisio cael gwared ar y recordiad.

## 7. Beth ddylai ymarferwyr ei wneud os credan nhw fod cyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad yn cael ei recordio a/neu byddai cyhoeddi'r recordiad yn rhoi plentyn mewn perygl o niwed pellach?

**I Blant**

Os oes gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb rhiant dros blentyn neu berson ifanc (oherwydd ei fod yn destun Gorchymyn Gofal Interim neu Lawn neu Orchymyn Lleoli) gallai'r Cadeirydd/ymarferydd arweiniol benderfynu gwahardd oedolyn sy'n mynnu recordio cyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad lle nad yw gwneud recordiad (ac o bosibl ei gyhoeddi) er budd pennaf y plentyn.

Fel arall, gallai'r Cadeirydd/ymarferydd arweiniol atal y cyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad lle bo'n briodol ac yn ddiogel i wneud hynny, a chynnig cynnal cyfarfod adferol gyda'r rhiant/gofalwr i archwilio ymhellach pam y bydden nhw eisiau recordio'r cyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad a cheisio dod i gytundeb.

Ym mhob achos, dylai'r penderfyniad gael ei gofnodi neu ei fanylu mewn cofnodion ysgrifenedig.

## 8. Beth ddylai ymarferwyr ei wneud os bydd gan rieni wahaniaeth barn am recordio'r cyfarfod, ymweliad neu apwyntiad?

Os yw un parti eisiau recordio'r cyfarfod, ymweliad, neu apwyntiad ac nad yw'r llall eisiau gwneud hynny, dylai'r ymarferydd arweiniol archwilio hyn gyda phob parti ar wahân. Os penderfynir nad oes risg o niwed pellach o ganlyniad i'r recordiad, dylai'r ymarferydd arweiniol geisio dod i gytundeb gyda'r holl bartïon perthnasol. Os nad yw cytundeb yn bosibl, dylai'r ymarferydd arweiniol edrych ar drefniadau eraill, er enghraifft cyfarfodydd, ymweliadau neu apwyntiadau ar wahân.

Dylai'r ymarferydd arweiniol geisio cyngor cyfreithiol os oes rhywfaint o recordio wedi digwydd.